YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1903. [CYF. III. RHIF 10.

NODION Y MIS.

Y DIGWYDDIAD mwyaf dyddorol i ni yn ystod y mis oedd cyfarfodydd dwy-flynyddol y Cynghor Rhwng-genedlaethol o Undodiaid a Meddylwyr a Gweithwyr Rhyddfrydig eraill yn Amsterdam, prif ddinas Holland, o'r 1af hyd y 4ydd o Fedi. Cynhaliwyd y cyfarfodydd cyntaf yn Llundain ddwy flynedd yn ol, adroddiad o'r rhai a ymddangosodd yn ein rhifyn am Gorphenaf 1901. Trodd y rhai hyny allan mor llwyddianus, fel y barnwyd mai dymunol fyddai eu gwneud yn sefydliad parhaus. Yr ail gyfarfyddiad o'r cynghor oedd yr un yn Amsterdam. Bwriedir cynal y cyfarfodydd nesaf yn rhywle yn Switzerland yn 1905.

Yn y cyfarfodydd yn Amsterdam yr oedd yn bresenol gynrychiolwyr o nifer o wledydd Ewropaidd—o Loegr (gwelsom enw un o Gymru), Ffrainc, Germani, Belgium, Switzerland, Denmark, Hungari; hefyd o'r Amerig, New Zealand, India, a Japan. Ymddengys fod yr oll o'r cyfarfodydd yn frwdfrydig (mor bell ag y gall cyfarfodydd Undodaidd fod felly), ac hefyd yn lluosog—dywedir eu bod ar gyfartaledd yn rhifo oddeutu mil; ac o'r nifer hwn yr oedd cyfran luosog o Loegr (oddeutu 200, mae'n debyg).

Undodiaid proffesedig oedd y cynrychiolwyr o Loegr a'r Amerig. Ond yr oedd llawer yn bresenol na chymerent arnynt yr enw Undodaidd, ond y rhai oeddynt, er hyny, mewn cydymdeimlad perffaith â syniadau Undodaidd neu Ryddfrydig. Delai y rhan fwyaf o honynt o'r gwahanol gyfundebau Ellmynaidd, yn benaf o'r Eglwys Wladol, un rhan o dair o'r hon (fel y dywedir) sydd ryddfrydig yn ei syn-

iadau crefyddol. Dywed y *Christian World*, yn ei adroddiad o'r cyfarfodydd, fod cynrychiolwyr o un-ar-hugain o wahanol gyfundebau wedi cymeryd rhan ynddynt.

Palla gofod i ni i roi adroddiad o honynt, hyd yn nod i roi rhestr o'r pynciau yr ymdriniwyd â hwynt. Derbyniasom lawer o adeiladaeth wrth ddarllen y papyrau ydynt wedi ymddangos yn y newyddiaduron enwadol, ond mwy pwysig fyth na'r papyrau a ddarllenwyd a'r anerchiadau a draddodwyd oedd y teimlad dwfn o frawdoldeb a gynyrchid yn y gwyddfodolion gan yr oll o'r gweithrediadau. Teimlem ni hyn i raddau wrth ddarllen yr adroddiadau. Pa faint mwy y teimlid hyn gan y rhai gawsant y fraint o fod yn bresenol!

Mae y Parch. Rhondda Williams, o Bradford, ar hyn o bryd ar ymweliad a'r Amerig, a thrwy ei bregethau a'i anerchiadau, ymddengys ei fod yn gwneud argraph ffafriol iawn ar ei wrandawyr. Traddododd un o'r anerchiadau hyn mewn cyfarfod o weinidogion yn Boston, ar y testyn "Meddwl duwinyddol yn yr eglwysi, a'u perthynas a'r lluaws." Dadleuai ynddi dros i weinidogion ddyweyd eu meddwl yn onest, eofn ac eglur, gan nad beth fyddai'r canlyniadau. Gobeithio na all neb ddyweyd wrth Mr. Williams, "Dos dithau a gwna yn yr un modd," er fod adgof o un bregeth a draddodwyd ganddo yn ddiweddar, at yr hon y cyfeiriasom yn y "Nodion" ychydig fisoedd yn ol, yn peri i ni feddwl nad yw yntau bob amser yn foddlon galw pob gwrthddrych wrth ei enw priodol. Er hyny, gair yn ei bryd a lefarwyd ganddo wrth weinidogion Boston.

Mewn cyferbyniad hynod i'r hyn ddywedodd Mr. Williams oedd sylwadau Dr. Campbell Morgan, olynydd yr enwog Mr. Moody, a gweinidog Anibynol hefyd (os nad ydym yn camsynied), pan yn siarad yn ddiweddar ar y pwnc, "Y Pregethwr a'r Beibl." Traddodwyd anerchiad agoriadol arno gan olynydd Dr. Parker, y Parch. R. J. Campbell. Yn nghwrs ei sylwadau, dywedodd Dr. Morgan y dylid gwynebu'r cwestiynau hyn, sef y cwestiynau Beiblaidd a wthid i sylw dynion gan feirniadaeth ddiweddar, a d'od i gasgliad penodol parthed iddynt; ac ar ol gwneud hyn, na ddylid dyweyd *dim* am danynt o'r pwlpud ar y Sul. Yn yr adroddiad newyddiadurol o'r araeth, dywedir fod y sylw crybwylledig wedi achosi ychydig chwerthin. Efallai fod y siaradwr wedi traethu'r sylw mewn dull oedd yn peri chwerthin. Ond, yn sicr, nid dyna'r derbyniad a haeddai'r sylw ei hun.

Ymddengys fel pe byddai cydfrâd yn yr oll o'r eglwysi i gadw ffrwyth beirniadaeth Feiblaidd ddiweddar yn gudd. Beth all fod y rheswm am hyn? Ai am yr ofnant, unwaith y dealla'r bobl beth yw gwir natur y Beibl, y syrth yr hyn a elwir uniongredaeth i'r llawr? Yn sicr, ni ddylid ofni'r gwirionedd, yr hwn (fel y dywedodd un dyn enwog) na wnaeth niwed i neb erioed. Os gwir yr hyn ddywedir gan ysgolheigion Beiblaidd am y Beibl, nid yw ond cwestiwn o amser cyn y bydd y wybodaeth o hono yn meddiant y lluaws. Pe yn gall yn ei chenhedlaeth, gwnai'r eglwys ei rhan oreu i daenu'r wybodaeth hon mor helaeth ag y bo yn bosibl, ac nid gadael y gwaith i ereill tu allan i'r eglwysi.

Mae ein hedmygedd o'r Parch. R. J. Campbell yn fawr; a chyda dyddordeb a gobaith yr edrychwn yn mlaen at ei yrfa. Ni ddywedwn ei fod yn Undodwr nac yn Adferiadwr. Nid yw yn Undodwr, gan nad beth am dano fel Adferiadwr. Ac nid teg priodoli enwau i neb yn groes i'w hewyllys. Ond hyderus ydym er hyny y chwareua efe ran fawr yn y gwaith o ryddfrydigeiddio meddwl crefyddol y byd Saesneg yn ystod y blynyddau dyfodol. Hyn wedi'r cwbl yw'r peth pwysig—rhyddhau dynion o lyffetheiriau credoau, a'u dysgu i feddwl ac ymresymu drostynt eu hunain. Mae unffurfiaeth barn yn anmhosibl i'r rhai a ddefnyddiant eu meddwl a'u rheswm yn onest, a dylai pob dyn fod yn ffyddlon i'r goleuni ac i'r wybodaeth oreu sydd yn ei feddiant.

Gallem ddyfynu llawer o ymadroddion o bregethau Mr. Campbell a ddangosant ei fod yn fyw i'r cyfnewidiadau mawr a gymerant le yn syniadaeth dduwinyddol ein hoes. Ar hyn o bryd ni ddyfynwn ond un. Yn yr anerchiad y cyfeiriwyd ati eisoes gwnaeth y sylw canlynol: "Nid oedd ei Gristionogaeth ef yn sefyll nac yn syrthio wrth fodolaeth y Beibl. A siarad yn ddynol, meddyliai y gallai fod yn Gristion pe na fyddai'r un Beibl, fel yr oedd y Cristionogion boreu heb y Testament Newydd. Ond nid oeddynt heb Grist. Yr oedd eu Cristionogaeth wedi d'od oddiwrth ddynion byw, wedi ei thraddodi iddynt [trwy'r canrifoedd] o'r oruwchystafell. Y tyst hwn oedd ymwybyddiaeth Cristionogol, a hwn oedd yn ei alluogi ef i fod yn sicr fod gair Duw yn y Beibl." I'n darllenwyr, efallai, nid ymddengys dim yn eithriadol o hynod yn y geiriau uchod; ond rhaid eu bod yn swnio yn hynod yn nghlustiau y rhai a'u clywsent. Ofnwn fod Mr. Campbell yn llithro oriwaered yn gyflym. Diolched ei fod yn byw yn nechreu'r 20fed ganrif.

Mae'r Twrc unwaith eto wrth ei hen a'i hoff waith o gamdrin a llabyddio a lladd y Cristionogion ydynt mor anffortunus a bod dan ei lywodraeth. Mae wrth y gwaith hwn yn rhywle yn barhaus—ychydig yn ol yn Armenia, yn awr yn Macedonia. Torcalonus i'r eithaf yw'r adroddiadau yn y newyddiaduron o ddydd i ddydd. Ac wrth sylwi ar ddifaterwch dideimlad gwledydd Cristionogol Ewrop, nis gallwn beidio gofyn, a ydyw Cristionogaeth wedi colli ei dylanwad ar ein llywodraeth i'r fath raddau, fel nad yw cri ddolefus eu cyd-Gristionogion yn apelio dim atynt? Hefyd, ai nid oes un radd o yspryd Gladstone wedi disgyn i ran un o'n gladweinwyr Rhyddfrydig? Bu adeg pan yr haeddai Lloegr yr enw o gynorthwydd y gwan. Mae wedi colli'r cymeriad hwn bellach, fel y mae lle i ofni. Gan nad pa gyfrwng ddewisir i osod terfyn ar y creulonderau hyn trwy ryddhau'r Cristionogion o grafangau'r Sultan, bydd cydymdeimlad y byd Cristionogol yn llwyr a'r ymgais.

GWEINIDOGION UNDODAIDD FEL YSGOLFEISTRI AC ATHRAWON.

VIII.—Y Parch. Rees Davies, Capelygroes.

GAN

Y Parch. T. Thomas, Y.H., Green Park.

Dywedodd cyfaill wrthyf yn ddiweddar y carai gael hanes cyflawnach am Rees Davies fel Ysgolfeistr nag a welir yn ei fywgraffiad yn Yr Ymofynydd yn rhifyn Ionawr, 1898. Cofied y cyfaill hwnw nas gellir gwneuthur llawer o briddfeini heb gyflawnder o wellt yn gyfatebol. Ychydig o fater oedd genyf i'r perwyl hwnw, ond efallai, trwy gynilo, y gallaswn fod wedi gwneuthur defnydd helaethach o hono pe yn meddwl nad oedd yr hyn a ysgrifenais yn ddigon.

Yn yr ysgrif hon bydd ail-adrodd rhai pethau a ysgrifenais o'r blaen yn anocheladwy. Pan gofleidiodd Rees Davies Undodiaeth dan weinidogaeth rymus ac effeithiol John James, cynyddodd ei sel gymaint drosti fel y penderfynodd, os gallai, fyned yn bregethwr, er gwneuthur ei ran i hyrwyddo ei blaenfynediad. Yn mhlith yr enwadau poblogaidd yr oedd gweinidogion llwyddianus a pharchus heb fod

fawr o ysgolheigion, ond yr oedd gweinidogion yr Undodiaid dan fath o reidrwydd anorfod i fod yn gyfryw, oblegid oddiwrth y weinidogaeth hon, gan gymaint y gwrthwynebiad iddi ar ei chychwyniad, yr oedd yn ofynol fod y gweinidogion yn gwybod y ffordd i gael eu bara beunyddiol heblaw wrth bregethu, a hyny trwy fod yn ysgolfeistri neu aelodau defnyddiol o gymdeithas mewn rhyw gyfeiriad arall.

Pan wnaeth Rees Davies y penderfyniad uchod nid oedd fawr o ysgolhaig; oblegid yn ol arfaeth yr aelwyd ffermwr oedd ef i fod, ac ni thybid yr amser boreu hwnw, os y gwneir yn bresenol, fod llawer o ddysg yn angenrheidiol gyferbyn a'r alwedigaeth hon, ac mewn canlyniad ychydig ysgol gafodd—rhyw dri mis, neu lai na hyny, efallai, yn y gauaf, pan fyddai rwyddaf i hebgor ei wasanaeth. Nad faint o ysgol gafodd yn awr ac yn y man, yn Nghastell Hywel y cafodd hi. Yn y modd hyn, rhwng dau corn yr aradr, ac wrth y gaib a'r rhaw y treuliodd Rees Davies y rhan fwyaf o'i fywyd boreuol.

Heb laesu dim yn ei benderfyniad, deued fel y delai, aeth drosodd i'r Fardre, ger Clydach, Cwm Tawe, lle yr oedd John James yn ddiweddar wedi agor Ysgol Ramadegol; ac yma y bu yn fyfyriwr diwyd yn ceisio cyrhaedd y mesur gofynol o Ladin a Groeg, a rhyw bethau ereill er myned i Goleg Caerfyrddin. Llwyddodd i gael derbyniad y tro cyntaf yr ymddangosodd o flaen yr Arholwyr yn 1821. Aeth drwy y cwrs arferol, a chyn ei orphen yn llwyr derbyniodd alwad oddiwrth gynulleidfaoedd Ystrad a Chapelygroes i'w gwasanaethu fel gweinidog.

Nis gellid disgwyl fod Rees Davies wedi cyrhaedd gris uchel fel ysgolhaig pan ystyrid mai ychydig fanteision dysg a gafodd yn more oes, ac mai byr fu tymhor ei efrydiaeth ragbarotoawl, ond yr oedd y cynydd a wnaeth yn brawf o ymroddiad a diwydrwydd hwnt i'r cyffredin heb son am alluoedd. Yr wyf yn anturio dweyd trwy wybodaeth bersonol, ei fod yn deall Lladin a Groeg, fel y medrai gyda chryn rwyddineb hyfforddi ereill a garent astudio'r ieithoedd hyny. Yr oedd yn ddiffygiol mewn gwybodaeth o Rifyddiaeth a Mesuroniaeth fel mai ychydig allai wneuthur yn y cyfeiriad hwnw.

Yn ei lawysgrifen ei hunan yr wyf wedi cael iddo agor ysgol yn Ystrad yr 20fed o Fedi, 1825. Dichon y bydd o ryw ddyddordeb i rai o'i hiliogaeth sydd yn byw heddyw yn Nyffryn Aeron neu yn rhywle arall i wybod pwy oeddent ei ysgolheigion yr wythnos gyntaf, er nad oes, yr wyf braidd yn sicr, yr un o honynt ar dir y byw heddyw. Wele yn canlyn eu henwau: John a David Evans, Lloydjack; Mary Griffith; Samuel Howell; John Jones, Rhydygwin; Jenkin Davies, eto; David Davies, Tynyfron; Mary Howell; Reuben Davies; John Williams, Union, Ystrad.

Byr fu ei arosfa fel ysgolfeistr yn Ystrad; priododd a symudodd i Llwynygroes, a bu yn cadw ysgol yn Llanwnen ryw bedair neu bum mlynedd. Bu yr ysgrifenydd yno am rai misoedd, ac y mae yn cofio fod amryw fechgyn mawrion yn llettya yn Plas, Llwyngroes, fel ysgolheigion o fanau pellenig. Yn Hydref 1830 neu 1831, bu yn ffortunus trwy garedigrwydd John Jones, Yswain, ewythr ei wraig, i gael fferm

gerllaw'r Cribin mewn sefyllfa gyfleus rhwng ei ddau gapel. Agorodd ysgol yn mhentref y Cribin yn fuan ar ol ei symudiad, ac o bryd i'w gilydd yr oedd amryw o'r ysgolheigion a ddelent o bell yn cael eu llettya yn Penbryn, lle yr oedd Rees Davies ei hun yn byw. Felly yr oedd erbyn hyn yn ffermwr, yn bregethwr, ac yn ysgolfeistr—y tri yn un. Yr oedd ganddo ormod o heiyrn yn y tân, ac mewn gwirionedd buasai un o'r galwedigaethau hyn yn ddigon iddo, a gwneuthur cyfiawnder a hi, ond yr oedd ef yn barnu yn wahanol gyda rhesymau oeddent ddigonol iddo ei hun. Gyda golwg ar waith yr ysgol yr wyf yn cofio ei fod ryw adeg fer yn cael ei gynorthwyo gan y diweddar Barch. John Jones, Aberdar, cyn iddo gymeryd at y weinidogaeth yn y lle hwnw. Yr hyn a wnai Rees Davies yn fwyaf cyffredin pan yn gorfod absenoli ei bun o'r ysgol i weini mewn angladdau, &c., oedd rhoi ei gofal i'r ysgolhaig goreu oedd ganddo, a'r un oedd ganddo fwyaf o ymddiried ynddo. Byddai hwnw yn hysbysu pwy rai o'r ysgolheigion oedd wedi bod yn afreolus; mor wired a hyny gwae'r pechaduriaid fyddai hi. Yr oedd cael un fflipen ar y gern a'i law fawr drom yn ddigon i syfrdanu y mwyaf pengaled o'r ysgolheigion, a chael ganddo addunedu o ddifrif na fyddai iddo gamymddwyn drachefn. Wedi cael fy nwyn i fyny dan yr hen oruchwyliaeth, ac yn mhen blynyddau yn ddiweddarach pan yr ymgymerais a'r swydd o ysgolfeistr yn Pontshan, mabwysiadais yr un cynllun o ddysgyblaeth, a bum yn dra llwyddianus gydag ambell i grwtyn anystywallt. Yr oedd yr hen ysgolfeistri bron yn ddieithriad yn ddysgyblaethwyr llym. Cofiaf i mi unwaith, ar ddamwain, droi i mewn i ysgoldy person a adwaenwn yn dda, a hyny cyn i mi syrthio i fewn i'r frawdoliaeth; yr olygfa gyntaf a gefais wedi agor y drws oedd hogyn direidus yr olwg arno yn ei haner plyg ar y desc a'r ysgolfeistr o ddifrif *ar ei ddyledswydd*; gofynais iddo pan gefais gyfleusdra sut yr oedd yn beiddio bod mor llym, a'r ateb a gefais oedd, "*Os na wabiwch chi nhwy, wabian hwy chi.*" Yr oedd yr hen ysgolfeistri o nod fel rheol yn cadw eu hysgolion mewn trefn, ac os na lwyddent trwy deg, gwnaent brawf o foddion traws, ac anaml y byddai *corporal punishment* yn methu. Gellir enwi'r hen Ddafis o Gastell Hywel fel un o'r cyfryw. Yn ol yr hanes, yr oedd y boneddwr Major Evans, o'r Dolau bach, Llanwenog, wedi bod am ryw amser yn ei ysgol, ac ni ellid ei gadw o fewn terfynau dysgyblaeth resymol heb roi iddo gosfa dda yn awr ac eilwaith; ond wedi tyfu fyny yn ddyn mewn oedran a synwyr yr oedd y boneddwr yn cydnabod ei rwymedigaeth i'w hen ysgolfeistr trwy anfon iddo amryw anrhegion gwerthfawr pan wedi ei oddiweddyd gan henaint. Daeth i'm cof yn y fan hon wirionedd pwysig a ganodd yr hen ysgolfeistr-fardd, "Achub llawer llanc anhywaith, gwyllt, neu hoeden, y mae'r wialen rhag marwolaeth."

Byddai er daioni mewn llawer ysgol pe arferid cyffelyb ddysgyblaeth lem pan fyddo pob moddion ereill wedi methu, ond fel y mae gwaethaf y modd braidd y caniata rhai rhieni i'r ysgolfeistr ddweyd *gair* sarug wrth eu plant, chwaethach ysgwyd y wialen uwch eu penau heb wneuthur dim yn mhellach, a'r canlyniad o hyn yw y

moesau gwarthus a nodweddant blant llawer o deuluoedd pan yn yr ysgol, yn enwedig lle mae dysgyblaeth yr aelwyd yn beth anadnabyddus.

Yr oedd Rees Davies yn ofalus neillduol i gael ei ysgolheigion yn hyddysg yn eu gramadegau fel y byddai eu gwaith yn rhwyddach wrth ddarllen yr uwchawduron. Yr wyf yn cofio yn dda y drafferth a gefais i fy hunan i orchfygu *Edwards' Eton Latin Grammar*, fel y mae llawer o hono wedi aros ar fy nghof hyd nes wyf yn ymyl pedwar ugain mlwydd oed, er na fu yn fy meddiant gopi o hono er ys mwy na deg ar hugain o flynyddau. Prynwn gopi pe cawn ef.

Yr oedd gofalon y fferm yn nghyd a dyledswyddau amryfal y weinidogaeth, a llawer o bethau ereill nas gallai yn briodol eu hosgoi, yn cymeryd ei holl amser i fyny fel y barnodd mai doethach fyddai rhoi'r ysgol heibio, yr hyn a wnaeth yn hâf 1842.

O amser i amser bu yn ei ysgol tra yn Ystrad yn gyntaf, wedi hyny yn Llanwnen, ac yn olaf yn Cribyn, amryw feibion a merched a fuont wedi hyny yn benau teuluoedd parchus, ac yn aelodau defnyddiol cymdeithas mewn gwahanol gymydogaethau, ond ychydig o honynt sydd ar dir y byw heddyw. A ganlyn wyf yn gofio am danynt ond dichon fod rhagor ar gael :—Dewi Hefin, y bardd tra adnabyddus, yr hwn, pe cymerasai y gorchwyl mewn llaw allasai gyfansoddi erthygl fwy dyddorol a galluog na hon ; Mrs. Jenkins, Mynach Villa, Cribyn ; David a John Jenkins, Glaslwyn (gynt Pantmarchog) ; Evan Williams, Saer, Cwrtnewydd ; David Rees, Tynyclawdd ; Mrs. Jenkins, Glanwern ; John Davies, Abercwm. Efallai y cofia'r personau uchod am ereill sydd eto yn fyw a fuont o nifer ysgolheigion Rees Davies. Yr wyf yn ofni y bydd y rhan amlaf o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD wedi blino cyn gorphen darllen y papyr hwn.

ANERCHIAD

A draddodwyd o Gader y Gymdeithas Undodaidd Gymreig yn y Cyfarfod Blynyddol, yn Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, Gorphenaf 23ain, 1903,

GAN Y PARCH. T. LLOYD JONES,

Gweinidog Hynaf y Domestic Mission, Mill Street, Lerpwl.

Diolchgarwch ydyw'r teimlad dyfnaf yn fy nghalon ar yr adeg bresenol, a'r gair cyntaf ddymunwn ddweyd ydyw can diolch am yr anrhydedd o gael fy ethol yn Llywydd y Gymdeithas hon. Teimlaf nad wyf wedi gwneyd na dweyd dim i'w haeddu, ac felly yr wyf yn hollol anheilwng

o swydd mor anrhydeddus, a theimlaf fy hun yn anaddas ac analluog i gyflawni ei dyledswyddau pwysig. Ac oddieithr yn Sir Aberteifi, yn nghymydogaeth Ystrad a Rhydygwin, nid oes un man ar y ddaear y dymunwn i'r anrhydedd gael ei rhoddi i mi yn well nag yn nghapel Hen-dy-Cwrdd, Aberdar, lle, flynyddau meithion yn ol y derbyniais gymaint o garedigrwydd oddiar law y gweinidog a'r gynulleidfa, caredigrwydd sydd yn parhau hyd y dydd heddyw.

Wedi bod yn "sisial iaith y Saeson," am ryw 30 o flynyddau, y mae iaith fy mam—er mor anwyl i mi, ac er fod ganddi "fil o leisiau melusion" ar dafod y medrus, wedi myned yn dra rhydlyd a chlogyrnog, ac ofnaf weithiau, yn sathredig dros ben. Gan hyny ymbiliaf eich hynawsedd am fy lledchwithdod ac absenoldeb medr ac ieithwedd lenyddol yn yr hyn a gaf ddweyd. A phan yn ychwanegol yr wyf am dros 20 mlynedd wedi treulio fy holl amser yn ymdrabaeddu yn nghanol twrf a therfysg y ddinas helbulus, y mwg a'i hawyr wenwynllyd, yr ystrydoedd culion ac afiach, ac o ddydd i ddydd ac o nos i nos yn ymweled a golygfeydd o dlodi a meddwdod, creulondeb ac ysgelerder, o bechod a thrueni, budreddi corfforol a moesol braidd tuhwnt i bob amgyffred, y mae'n eithaf amlwg i'r gwanaf ei ddeall fy mod nid yn unig yn anheilwng ond yn hollol anghymwys i fod yn Llywydd y Gymdeithas hon, ac i'ch anerch ar achlysur mor bwysig. Gan hyny, heb un rhagrith, ond gyda phob difrifoldeb, yr wyf yn teimlo nad yw yn fy ngallu i ddweyd dim a fydd o un elw neillduol i gario yn y blaen achos sydd mor werthfawr yn ein golwg.

Trwy fwg mwll Llerpwll—er pallu
A gweled un golwg ar Gymru,
Etto naid y galon gu
Uwch y mwg i'w dychmygu.

Dyna sut y canodd Ieuan Glan Geirionydd. Felly finau; *dychmygu* raid i mi wneud beth ydyw cyflwr yr Eglwys Gristionogol yn Nghymru ar yr adeg bresenol; pa gwestiynau sydd yn gofyn eu hateb? pa bynciau sydd yn gofyn eu hesponio? beth ydyw cyflwr presenol a

RHAGOLYGON YR EGLWYS RYDD

ydym ni yn perthyn iddi? beth ydyw yr anhawsderau neillduol sydd ar ffordd ei llwyddiant a'i lledaeniad yn mhlith y werin? Er mor anwladgarol yr ymddangosaf i'r rhan fwyaf o honoch o bosibl, yn mloesgni fy iaith ac mewn cyfeiriadau eraill, yr wyf yn tystio i chwi fy mod yn ddarllenwr cyson o'r YMOFYNYDD, ac yr wyf bob mis, hyd y gallaf, yn sugno lluniaeth o'i gynwysiad, ac yn ymborthi yn neillduol ar ddanteithion "Nyth y Fran." Felly os bydd i mi gyffwrdd a thestyn a fydd o ryw ddyddordeb, y Fran lygadlym, a'i spectol ar ei phig, ac yn aros ar dwr uchelfrig ei gwyliadwriaeth, sydd wedi rhoddi'r arwydd, ac iddi hi byddo'r diolch.

Yr ydym yn byw mewn oes yn llawn cynhwrf a chyffro o ben i'w gilydd. Y mae'n oes o fywiogrwydd rhyfedd, ac yn oes ymarferol iawn. *Multum in parvo* ydyw ei harwyddair. Y mae Gwyddoniaeth wedi agor drws ei thrysorau, a rhoddi i ddyn ddatguddiadau newydd o'r cread a'r galluoedd rhyfedd sydd ynddi at wasanaeth dynoliaeth. O radd i radd mae dyn wedi darostwng y ddaear, wedi gwneud ei hun yn frenin y greadigaeth, ac yn arglwyddiaethu ar dir a môr. Y mae yn ddwyfol yn ei fesur megis Duw, yn dal y mor megis yn ei law, yn mesur y nefoedd, yn pwyso y mynyddoedd mewn pwysau a'r bryniau mewn clorianau. Y mae'n morio o amgylch yr ynysoedd fel pethau bychain. Y mae'n rhagweled cylchdroadau'r heuliau ac yn dilyn y planedau yn eu gyrfa aruthrol trwy'r eangder anherfynol. Y mae Seryddiaeth yn ei alluogi i lywio ei long wrth lwybrau'r ser, ac i groesi yr eigion trochionog a dilwybr yn iach a diogel. Y mae'r ager wedi gostwng bryn a chodi pant, wedi gwneud y gŵyr yn uniawn, a'r an-

wastad yn wastadedd ; a'r pellebyr trydanol wedi dwyn y pell ; yn agos, ac wedi crynhoi'r ddaear yn nghyd, a'r *Telephone* wedi gwneud y byd yn *whispering gallery* o un pegwn i'r llall.

Felly mae effeithiau dirfawr yn cael eu cynyrchu mewn ychydig amser, blynyddoedd o brofiadau braidd yn cael eu cyfyngu i ychydig ddiwrnodau neu oriau, fel y gellir dweyd fod dynion yn gyffredinol yn byw heddyw fwy o flynyddau na Methuselah ei hun. Mae'r oes yn llawnach, yn ddyfnach ac yn helaethach, yn fwy angerddol, yn yr oll sydd yn gwneud i fyny fywyd. Gallwn wneud mwy mewn awr, rhoddi mwy o oriau mewn diwrnod, a mwy o ddiwrnodau mewn blwyddyn nag erioed o'r blaen yn hanes y byd.

"*Thro' the shadows of the globe we sweep into a younger day,*
Better fifty years of Europe than a cycle of Cathay."

"*We are living, we are dwelling, in a grand and awful time,*
In an age on ages telling, to be living is sublime."

Nid yn unig yn y byd materol, yr hwn y mae dyn wedi ei droi drwy ei ddiwydrwydd a'i ddyfeisiau cywrain o fod yn afluniaidd a gwag i fod yn breswylfa baradwysaidd, addas i ddyn ac angel ; nid yn unig yn y byd masnachol trwy yr hwn y mae danteithion y ddaear gyfan yn hulio ei fwrdd, ac yn gweinyddu i'w gysur a'i ddedwyddwch, y mae diwygiadau, a gwelliantau, a chynydd wedi cymeryd lle, ond hefyd yn y byd cymdeithasol a chrefyddol. Y mae pobloedd o bob llwyth, iaith a chenedl wedi dyfod yn nes at eu gilydd ac i deimlo fwyfwy mai o un gwaed y gwnaed pob cenedl o ddynion i breswylio ar wyneb yr holl ddaear, eu bod yn un teulu, yn frodyr a chwiorydd, yn blant yr un Tad mawr. Yn mhob cyfeiriad gwelwn sefydliadau dyngarol yn cael eu hadeiladu, ysgolion i ddysgu yr anwybodus, *Reformatories* i ddiwygio'r drygionus ; cartrefleoedd i'r amddifaid, a'r weddw a'r methiantus; *Hospitals* ac *Asylums* i'r claf a'r anafus, yr oll o honynt yn ymgnawdoliad o gydymdeimlad a thynerwch calon dyn tuag at ei gydgreaduriaid cystuddiedig ac anffortunus. Er gwaethaf Pessimistiaeth ddamcaniaethol ac ymarferol a welir yn athroniaeth y dydd, ac yn fwy fyth yn anianoldeb gwrthun nwydau a chwantau corfforol, a difaterwch oer ein bywydau yn rhy gyffredinol, y mae'r ffaith ddiymwad yn ein gwynebu fod cyfnewidiad rhyfeddol er gwell wedi cymeryd lle, ac y mae creulondeb a chasineb, rhwng dyn a dyn, rhwng cenedl a chenedl, yn lleihau, a chariad a brawdgarwch yn eangu ac yn cynyddu yn y byd. Ac fel y mae profiad a gwybodaeth dyn o hono ei hun ac o'r byd yn cynyddu, y mae ei feddyliau am Dduw yn eangu, ac fel y mae yn esgyn i fyny mewn moesoldeb, purdeb a daioni, y mae ei feddylldrych am Dduw yn codi yn uwch ac yn well.

"*The thoughts of men are widened*
With the process of the suns."

Meddyliau goreu am ddyn arweiniant i feddyliau goreu am Dduw a'i briodoleddau. Gwir ydyw mewn ystyr mai dyn ydyw creawdwr ei Dduw. Y mae'r meddwl a'r galon ddynol yn creu Duw ar eu llun a'u delw eu hun, ac y mae'n cael ei buro o oes i oes, fel mae'r meddwl yn dyfod yn burach a'r cymeriad yn ardderchocach. Felly trwy ddyn mae'n rhaid i ni fyned at Dduw fel ag y dywedodd yr Iesu : "Nid yw neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi," "Y neb a'm gwelodd i a welodd y Tad." Trwy ein brawd yr hwn a welwn, y mae llwybr dynoliaeth at y Tad yr Hwn ni welwn. Y rhinweddau mwyaf godidog a amlygir ynghymeriad yr hil ddynol ydym yn naturiol yn briodoli i Dduw mewn perffeithrwydd. Dyma y rheswm y gwnaed yr Iesu yn Dduw—ei lwyr-ymroddiad i *ideals* ysprydol, dyhead ei enaid am Dduw, a dyfnder ei gariad at

ddyn nes peri iddo gysegru ei holl fywyd i wasanaeth Duw a dyn. "Wele y Duwdod yn y dyn," meddent, a gosodwyd Ef yn Ben ar orsedd y bydysawd. Y mae'r argyhoeddiad o Dadoldeb Duw a Brawdoldeb dyn yn arwain yn anwrthwynebol i gredu yn *nwyfoldeb dyn* a *dynoldeb Duw*—ac felly i dyfiant y meddwl am wirionedd, cyfiawnder, uniondeb a sancteiddrwydd, rhyddid a breiniau dyn fel dyn, gan fod Duw yn ymgnawdoliad—mewn pob cyflawnder—o'r priodoleddau yma mewn perffeithrwydd. "*That can not be good in God, which evil is in man.*" Fel y mae dynion yn dyfod i edrych ar Dduw fel Tad trugarog, fel ag y mae'r galon, a'r deall a'r yspryd yn ymgeisio addoli Duw o Gariad Anfeidrol, y mae'n anocheladwy iddynt fethu credu yn yr hen gredoau, y Cwymp, Etholedigaeth, Iawn a'r Poenau Tragwyddol. Y Cwymp ydyw careg sylfaen Iawnffyddiaeth; oblegyd os na fu Cwymp trwy fwyta o'r pren gwaharddedig nid oes angen am yr arfaeth foreu rhwng y tri yn un; ac nid oes eisiau Iawn i ddofi y llid tragwyddol os mai cariad yw Duw, a hwnw yn un; ac os mai Un Duw sydd ac nid oes arall, nid oes eisiau y Drindod.

Nis gwn a allaf ddeall wyneb yr wybren a medru arwyddion yr amserau, ond fel yr wyf fi yn ceisio edrych "trwy fwg mwll Llerpwll' ymddengys i'm llygad egwan, byrolwg i, fod chwyldroad wedi, ac yn cymeryd lle yn y ffurafen dduwinyddol, yn meddylddrych yr oes mewn perthynas i fodolaeth, a natur gweithrediadau Duw, dechreuad a thynged dyn, ystyr a dyben y bywyd hwn a gobaith anfarwol y byd tuhwnt i'r llen. Ac o ganlyniad mae hen ffurfiau a chredoau yn colli eu gafael ar feddyliau dynion; nid yw plant y dydd heddyw yn cael eu digoni ar yr hyn a ystyriai'r tadau yn had pur heb ddim üs; mae'r hoelion yn dyfod yn rhydd a chwymp a dinystr yn bygwth llawer adeilad gorwych o gredoau a thraddodiadau. Y mae'r wyntyll ar waith yn glanhau y llawr dyrnu, ac y mae llawer yn ofni yr ysgubir yr oes gan gorwynt o anghrediniaeth ac anfoesoldeb. Prophwydodd llawer un mai dyma fyddai'r canlyniad o wadu Duwdod Crist, cyfiawnder cyfrifol a chospedigaeth dragwyddol; ond nid yw'r brophwydoliaeth wedi ei chyflawni yn neillduol yn "Narn Undodaidd Sir Aberteifi." Y mae'r "Ysmotyn Du" bellach wedi ei lwyr ryddhau am byth o'r fath gam-gyhuddiad maleisus. Oherwydd yr hollti blew sydd rhwng archesgobion ac esgobion yn nghylch cyd-sylweddiad a thraws-sylweddiad yn ngweinyddiad y Cymun, a'r pwys mawr a osodir ar sacramentau a seremoniau, ar urddau offeiriadol ac olyniaeth Apostolaidd, ofna eraill ein bod yn cael ein cludo ymaith gan lif offeiriadaeth neu ein suddo mewn llynclyn o ofergoeliaeth a'n dyga yn ol dan iau caethiwed o'r hon y'n rhyddhawyd yn y 16eg ganrif.

Wel, beth am ein cyfundeb bychan ni fel Eglwysi Undodaidd? Sut yr ydym ni yn gwynebu yr argyfwng? Yn hollol ddibryder ac yn llawn gobaith. Nid yw ein crefydd ni—Cristionogaeth Rydd—yn gorfod cau ei llygaid a byddaru ei chlustiau yn erbyn tystiolaeth hanesyddiaeth a gwyddoniaeth, ond â allan yn eofn i'w llongyfarch gan ddiolch i Dduw am bob dadguddiad o hono ei hun yn narganfyddiadau newydd a rhyfeddol y bydysawd. Nid oes raid i ni eu credu oll, ond y mae'n rhaid i ni edrych i fewn i'r rhyfeddodau yma ar dir teg, ar eu haeddiant eu hunain yn rhydd oddiwrth bob rhyw erthyglau ffydd, ac oddiwrth bob rhagfarn sydd wedi llyffetheirio'r meddwl wrth draddodiadau dynol neu lyfrau cysegredig. Os yw darganfyddiadau athroniaeth a gwyddoniaeth yn wirionedd Duw, ac os yw Duw yn Dduw'r gwirionedd—ac nis gall Duw wrth-ddywedyd ei hun yn siwr; yna nid ydynt yn symud crefydd un mymryn haul oddiwrth y gwir, ond yn hytrach yn ei helaethu a'i dyfnhau trwy fod natur a phriodoleddau Duw ei hun yn dyfod yn fwy amlwg ac felly yn ein galluogi i amgyffred

mwy o Dduw, mor bell ag y gall dyn meidrol amgyffred yr Anamgyffredadwy Mawr.

Mae llawer o ysgrifenu wedi bod yn ddiweddar yn nghylch Undodiaeth ac Undodiaid mewn canlyniad i Fywgraffiad Dr. Martineau a Chanmlwyddiant genedigaeth Emerson yn Boston. Trwy'r holl fyd cydnabyddir yn ol y ddedfryd gyffredinol y ddau hyn yr enwocaf fel athronwyr a llenorion yn ystod 19eg ganrif. Telir teyrnged iddynt gan ddynion galluog a dysgedig pob gwlad a phob enwad am eu talentau meddyliol uchel, a'u hysprydolrwydd dwfn, ac fel cewri athronyddol ac amddiffynwyr crefydd yn erbyn Atheistiaeth a materoliaeth yr oes. Mae'n anhawdd i ni ddychmygu sut y gall dynion diwylliedig eu meddyliau a hynaws eu tymher un diwrnod ysgrifenu geiriau o glod a pharch iddynt fel seintiau duwiol o fucheddau pur a didrodres, a'r diwrnod nesaf gyda phob difrifoldeb yn adrodd y gredo a'u condemnia i golledigaeth dragwyddol! Ond felly y mae, fel mae gwaethaf y modd!

[I'W BARHAU.]

NYTH Y FRAN.

Y Fran yn y Sasiwn.

Sefydliadau Cymreig yn arbenig yw yr Eisteddfod a'r Sasiwn, ac mae'n siarad yn uchel am gymeriad cenhedlaethol Cymru, fod ei chalon, yn wyneb holl hudoliaethau difyrion poblogaidd, yn aros yn ffyddlon i'w chariadon cyntaf. Tystia Eisteddfod fawr Llanelli fod y Deheu yn iach mewn un cyfeiriad, tra yr oedd y dorf aruthrol oedd yn bresenol ar y maes yn Sasiwn Pwllheli mis Awst diweddaf yn brawf fod y Gogledd yn iach mewn cyfeiriad arall. Cefais y fraint i fod yn un yn eu plith, ac i weled y Sasiwn unwaith yn fy oes. Bûm o'r blaen, o bryd i bryd, yn Nghymanfaoedd rhai o'r Enwadau eraill yn y Deheu; ond os am gael syniad iawn o'r hyn ydyw Cymanfa grefyddol Gymreig yn ei gogoniant, aed y darllenydd i

Sasiwn Awst

y Methodistiaid Calfinaidd sydd yn cael ei chynal ar yn ail yn Mangor,

Caernarfon a Phwllheli. Yn Arfon, Eifionydd a Lleyn, mae y Methodistiaid bron yn meddianu'r wlad, ac yn y tair tref a enwyd hwy yw y gallu cryfaf o bawb. Ni wneir fawr o gyfrif o'r Eglwys Sefydledig yn y parthau hyn, yn neillduol yn y wlad. Clywais am Ficer newydd yn ddiweddar yn myned trwy ei wasanaeth cyntaf mewn Eglwys yn y gymydogaeth. Dim ond un hen wraig oedd yn gwneud i fyny y gynulleidfa, a phan y rhoddodd yr offeiriad yr emyn allan, ac y gwelodd nad oedd yno neb i ganu, methodd beidio ymollwng, ac eisteddodd i lawr i wylo. Dyma'r *Nemesis* sydd ar *drack* yr Eglwys Sefydledig mewn cynifer o fanau yn Nghymru, yn farn Duw am anffyddlondeb canrifoedd. Aed y teithiwr i unrhyw bentref, fel rheol, yn Sir Gaernarfon, ac os teimla ddyddordeb yn agwedd grefyddol y lle, caiff allan yn fuan fod yno Eglwys gymaint a *Drawing Room* cyffredin; capeli bychain mewn conglau neillduedig gan yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, ac o bosibl gan y Wesleyaid; a chapel mawr, urddasol yr olwg arno, gan y Methodistiaid yn y man mwyaf cyhoeddus. Ac mae y Sasiwn Awst a gynhelir o flwyddyn i flwyddyn, yn Mangor, Caernarfon a Phwllheli yn cyfateb i'r safle o uwchafiaeth a dylanwad mae'r Methodistiaid wedi enill yn y Gogledd, ac wedi enill hefyd mewn modd teilwng o'u llafur a'u hunanaberth. Bu y Sasiwn flynyddol ar Green y Bala am amser maith y cynulliad Methodistaidd mwyaf pwysig yn y Gogledd, fel yr oedd Sasiwn Llangeitho yn y Deheu. Er mwyn sicrhau ei llwyddiant yr oedd deddfau cyffredin y tywydd yn gorfod rhoddi ffordd, ac yr oedd hin ddymunol yn yr arfaeth bob amser, mae'n debyg, i'r llwythau ddyfod yn nghyd. Cymerai y Sasiwn le tua diwedd mis Mehefin, ar ddechreu y

CYNHAUAF GWAIR.

Un tro aeth *farm-bailiff* yr hen foneddwr Price o'r Rhiwlas, un o brif *landlords* Sir Feirionydd, at ei feistr gan ofyn, "Pryd ydach chi'n myn'd i ladd gwair, Syr." "Pryd mae Sasiwn Methodis ar Green y Bala, wyddost ti?" "Wn i ddim," meddai'r *bailiff*. "Wel, rhed lawr, ynte, at Lewis Edwards, i'r Coledge, a gofyn iddo pryd mae Sasiwn Methodis." Mae y *bailiff* yn myn'd i lawr at Mr. Edwards (nid Dr. y pryd hwnw) yn dweyd ei neges, ac yntau yn gofyn iddo, "Paham mae Mr. Price yn 'mofyn gwybod amser y Sasiwn?" "Er mwyn cael tywydd teg i ladd gwair, Syr." Mae hyd yn nod "Sasiwn Methodis" yn golygu pethau gwahanol iawn i wahanol bobl. I ganoedd, ie, a rhai miloedd feallai, yr oedd dyfodiad y Sasiwn yn golygu gwyl fawr grefyddol, adfywiad ac adgyflenwad ysprydol, "amseroedd i orphwys o olwg yr Arglwydd." I Price Rhiwlas, *compound* o ofergoeliaeth a yspryd y byd, yr oedd yn golygu tywydd teg at y gwair,

HOGI PLADURIAU,

taclu offer y cynhauaf, crasu bara, a macsu tablen, a chant a mil o bethau is-loerol felly, ydynt gan milldir allan o gysylltiad ag iachawdwriaeth enaid. Mae *centre of gravity* y Sasiwn erbyn hyn wedi ei symud o'r Bala. Cymer y dref hono, er cymaint ei phwysigrwydd yn hanes Methodistiaeth, ei lle gyda threfi eraill y Gogledd, a gânt y fraint o groesawi y Sasiwn yn achlysurol yn eu tro. Awgrymais eisoes fod Pwllheli yn un o dair tref a fendithir yn rheolaidd bob tair blynedd a phresenoldeb Cymdeithasfa y Gogledd yn mis Awst. Dylwn adgofio y darllenydd fod dwy Sasiwn neu Gymdeithasfa gan y Methodistiaid yn Nghymru,—un yn y Deheu ac un yn y Gogledd, pob un yn cyfarfod yn Chwarterol, ac yn olrhain eu dechreuad i'r Gymdeithasfa gyntaf a gynhaliwyd yn Watford, Sir Forganwg, Ionawr y 5ed a'r 6ed, 1742, dan lywyddiaeth

GEORGE WHITFIELD,

pryd yr oedd yn bresenol, yn mhlith

llawer o bregethwyr a chynghorwyr, Howell Harries, Daniel Rowlands, a Williams, Pantycelyn. Cyfeiria Williams yn ei farwnad i Daniel Rowlands at yr achlysur—

"Dyma'r pryd daeth Whitfield enwog
Ar adenydd dwyfol ras,
Lawr i Gymru i gael profi
Y newydd win o ddwyfol flas;
Dyma'r pryd yr hyfryd asiwyd
O fewn ffwrnes fawr y nef,
Sais a Chymro mewn athrawiaeth
Loew, ddysglaer, gadarn, gref.

Dyma'r pryd, boed cof am dano,
Ganwyd yr *Assosasiwn* fawr,
Ag sy'er haner cant o flwyddi
Yn cadw fyny hyd yn awr;
Yn gwneud undeb athrawiaethau,
Ac yn c'lyma cwlwm crwn,
Nas gall rhagfarn na drwgdybiau
Fyth i ddattod ddim o hwn."

Cynulliadau bychain oedd Sasiynau y ddeunawfed ganrif, fel y gallesid disgwyl. Dydd y pethau bychain oedd hi ar Fethodistiaeth y pryd hwnw, a chofnodir fod Cymdeithasfa yn cael ei chynal yn y Bala yn 1767, pryd nad oedd yn yr oedfaon cyhoeddus ond prin ddau cant o wrandawyr. Mae y dau cant hyny yn y Bala yn 1767, a'r deg mil, a rhagor o bosibl, a wrandawent ar y maes yn Sasiwn Pwllheli yn mis Awst diweddaf yn ddangoseg i ryw fesur o'r cynydd anarferol a'r dylanwad cyfatebol i hyny ydynt wedi nodweddu gyrfa Methodistiaeth yn Nghymru am gant a haner o flynyddau. Yn ddiamheu, yr oedd y Sasiwn ar ei oreu fel sefydliad yn Mhwllheli. Nid yw'r dref yn fawr o ran ei phoblogaeth—rhyw bum mil, feallai, ond mae mwy na'u haner yn Fethodistiaid, ac mae yn gyrchle cyfleus i wlad eang yn mhob cyfeiriad sydd wedi ei meddianu gan Fethodistiaid. Mae Llywydd y Gymdeithasfa eleni yn un o gedyrn y Corff, nid feallai fel pregethwr, ond fel ysgolor a duwinydd. 'Rwyf yn cyfeirio at y Parch. Hugh Williams, M.A., Athraw Hanes Eglwysig yn Ngholeg y Bala. Ni fyddwn allan o le, feallai, wrth ddweyd ei fod yn un o ddau neu dri o *specialists* duwinyddol ag y gall Cymru ymffrostio ynddynt. Gwelais yn ddiweddar ei fod wedi ysgrifenu erthygl sydd newydd ymddangos mewn cylchgrawn Almaenaidd yn amheu ac yn beirniadu mewn ffordd effeithiol rai gosodiadau yn Hanes y "*Celtic Church*" gan y Proffeswr Zimmer, o Berlin, boneddwr sydd yn adnabyddus yn Nghymru fel un o brif ddysgedigion Celtaidd yr oes. Yr oedd y Sasiwn yn gynulliad mor bwysig fel y sicrhawyd gwasanaeth

MR. LLOYD GEORGE

mewn cyfarfod neillduol ar gyfer pobl ieuainc. Ni chefais gyfleustra i wrando ar ei araeth, ond gwelais adroddiad o honi. Darllenai yn hollol fel araeth lleygwr Undodaidd nad oedd wedi ymgymysgu erioed a Methodistiaid. Dygodd gydag ef ryw awyrgylch newydd, ryw naws estronol i'r cyfarfodydd yn Mhwllheli, ond hollol gynefin i un sydd wedi ymdroi trwy ei oes mewn hinsawdd wahanol. Sylw *odd* ymddengys i mi i ddisgyn ar glustiau gweinidogion a blaenoriaid a gredent mai yr Hollalluog Dduw ei hun "yn nyddiau ei gnawd" oedd yn rhodio oddiamgylch gwlad Judea, ryw bedwar cant ar bymtheg o flynyddoedd yn ol—"*Jesus of Nazareth was at all events a gentleman.*" Charwn i ddim ceisio gwasgu gormod allan o'r cyfeiriad, na chwaith o naws cyffredinol yr araeth, ond mae yna rywbeth, a dweyd y lleiaf, yn ddrwgdybus; yn neillduol, pan y cofiwn fod tad Mr. Lloyd-George yn Undodwr, ac yn Brifathraw Ysgolion Capel Hope Street, Lerpwl yn amser Dr. Martineau.

GOLYGFA NAD ANGHOFIAF

byth oedd y cwrdd pregethu 'ar y maes' dydd Gwener, Awst 27ain am 2 o'r gloch. I'r gwir bregethwr yr oedd yr holl *environment* yn llawn ysprydoliaeth. Yr oedd swn y môr

yn y pellder, fel yr ymsiglai yn anesmwyth ar ei wely, yn awgrymu yn ngeiriau Martineau, drai a llanw yr yspryd fel mae lleisiau amrywiol y greadigaeth yn dylanwadu arno; mewn agwedd arall o feddwl yr oedd ei wyneb tawel a llyfn yn cael ei weddnewid i fod yn "orsedd yr anweledig, yn ddelw o dragwyddoldeb," yn aruchel ac yn diderfyn fel Duw ei hun. Nid dyma'r tro cyntaf i'r môr sydd yn golchi traethau Arfon fod yn ysprydoliaeth i bregethwr Methodis ag yspryd y peth byw yn ei galon. Dywedir fod

WILLIAMS, PANTYCELYN

unwaith yn pregethu mewn oedfa yn Nghlynog Fawr, ac iddo o dan ddylanwad yr *hip*, a hiraeth am gartref, gyfansoddi y llinellau canlynol, a'u rhoddi allan yn yr oedfa :—

"'Hed y gwcw, 'hed yn fuan,
'Hed y 'deryn glas dy liw ;
'Hed oddiyma i Bantycelyn,
D'wed wrth Mali mod i'n fyw ;
'Hed oddiyno i Lanfair Muallt,
D'wed wrth Jack am gadw'i le ;
Ac os na chaf ei weled yma,
Caf ei weled yn y ne'."

Gofynodd y gwr oedd yn dechreu, a oedd e'n disgwyl i'r gynulleidfa ganu peth felly. Daeth Williams ato'i hun yn y man, gwelodd ei amryfusedd, ac wrth glywed swn y llanw yn dyfod i fyny ar draeth Clynog, rhoddodd allan yn ddifyfyr—

"Mae'r iachawdwriaeth fel y môr,
Yn chwyddo byth i'r lan," &c.

Mae yr un môr yn ei ddirgelwch diwaelod yn curo ar draethau Arfon hyd y dydd heddyw, ac yn barod i gario ei genhadwri i galon y pregethwr sydd yn medru deongli ei gyfrinion. Ac wn i ddim nad oedd y pregethwyr ar lwyfan y Sasiwn a'u gwynebau yn gywir at yr Wyddfa a'i frodyr a safant fel rhestr o wylwyr ag mae cadernid a diogelwch y wlad fel pe bai wedi eu hymddiried iddynt—y mynyddau a'n codant i fyny i awyrgylch iachach, ac a berant i ni wrth edrych arnynt i deimlo rhywfaint o bresenoldeb y Duw a'u gwnaeth, a rhywfaint hefyd o fawredd dyn sydd yn sefyll mewn dystawrwydd a pharchedig ofn wrth eu traed. Ac yr oedd yma, fel yr awgrymais o'r blaen,

ANIALWCH O ENEIDIAU DYNOL

i'r pregethwr i edrych yn eu llygaid —pobl o bob dosparth, yn hiraethu, i bob ymddangosiad, am air y bywyd, boneddigesau a boneddigion wedi eu gwisgo *in the height of the fashion*, ffermwyr bychain a llafurwyr amaethyddol Lleyn a'u cefnau wedi eu crymu, a'u gwynebau wedi eu rhychu gan lafur caled y blynyddau. A *just* ar fy mhwys, wedi eu meddianu gan ysprydiaeth yr olygfa, safai dau ddoethor enwog o Rydychen, un o honynt yn Broffeswr yn y Brifysgol ; a'r llall yn Undodwr adnabyddus o'r Dehau sydd ar y ffordd i wneud ei gartref yn y Gogledd, ac wedi cael allan yn barod trwy ragbrawf digonol nas gall fod yn gysurus yn un man ar wyneb daear heb fod y

MOR, Y MYNYDD, A'R METHODIS

yn gymydogion iddo. Os oes ysprydoliaeth mewn torf felly, astud a pharod i wrando gan mwyaf, yr oedd yr elfenau sydd yn ei wneud i fyny yn bresenol y diwrnod hwnw. Ac yn ben ar y cwbl, fel y mae wedi bod erioed yn hanes y Methodistiaid, o amser Howell Harris a Daniel Rowlands i lawr at Owen Thomas a Thomas Charles Edwards, mae ganddynt bregethwyr sydd yn medru apelio at galonau torf o bobl gyda'r nerth a'r dylanwad sydd wedi rhoddi ei arbenigrwydd i'r pwlpud Cymreig. Nid yw'r tân o bosibl yn llosgi gyda'r fath angerdd ag a wnai yn mynwesau yr hen ddiwygwyr, nid yw'r floedd yn elfen mor amlwg ag y bu ar uchelfanau'r maes, ac mae naws y weinidogaeth i raddau wedi

cyfnewid, ond credwn wedi'r cwbl fod "Baich gair yr Arglwydd" yn cael ei ddal i fyny gan rai o bregethwyr Sasiwn, Pwllheli mewn modd teilwng o ffyddlondeb, brwdfrydedd a hyawdledd y tadau, a wnaethant Fethodistiaeth yn allu mor bwysig yn mywyd crefyddol Cymru.

GWEINIDOG Y MYNYDD.

GAN TUDFATHAR.

X.

"Unwaith cynheuir tân
Gan serch o fewn y fron—
Fe losgir aml rinwedd
O fewn y goelcerth hon."

"Yr wyf yn dweyd wrthych, Ethel, os na chydsyniwch a'r cynllun yr wyf fi wedi ei dynu allan, neu os sibrydwch air wrth neb, bydd y cyfan ar ben rhyngom. Gwyddoch fy mod i yn *Oxford man*, ac yn *coming barrister*; ac y gallaf edrych, pan fynwyf, am gymhares uwch yn y byd na merch *siop*, mewn *pextref*, yn *Nghymru*?"

"O! Sidney, peidiwch fy ngadael. Gwyddoch nad yw bywyd yn werth i mi hebddoch chwi. Gwnawn unpeth yn hytrach na'ch gwahanu chwi oddiwrthyf; ond eto, Sidney anwyl, y mae'r peth ydych yn awgrymu yn anheg, yn anghyfiawn: y mae yn bechadurus, ac yn *wrong*; gallem gael ein dal a'n carcharu am ffugio ysgrifen, neu ysgrifenu llythyrau yn enwau pobl eraill."

"Tewch son, Ethel fach. Yr y'ch chwi'r, benywod yma, mor *barticular* mewn pethau bychain. Gwyddoch mai daioni i'r ddau fydd hyn yn y diwedd. Yr ydym mewn gwirionedd yn achub Nwyfa Roberts rhag tynged druenus iawn, rhag cael ei thynu i mewn i grafangau twyllodrus y pregethwr Sosin yna. 'Gwnewch ddrwg fel y dêl daioni," onide, Ethel."

"Ie, ond Sidney, ai nis gallem wneud caredigrwydd a Nwyfa drwy ryw ffordd a fuasai yn gyfiawn? A pha ddaioni fyddai i Nwyfa pe cai ei gyru o'r Coleg?"

"Pan glywo Geraint Jones fod Nwyfa wedi ei gyru o'r Coleg, mae'n debyg na wnaiff sylw pellach o honi, ac y bydd i hyny roi terfyn ar y berthynas sydd rhyngddynt," atebai Sidney yn gloff.

"O! na, Sidney, er fy mod yn eich caru chwi, ac yn cashau Nwyfa am ei bod hi yn *rival* i mi am eich calon, eto ni wnaf, na wnaf fi byth dro fel hyn a hi; na, ysgrifenaf fi ddim rhagor drosoch!" A thorodd Ethel i grio fel baban.

"Wel, dyna ddigon, ynte. Nos da, Ethel. Gellwch grio fan hyn hyd bore foru, ac erbyn hyny bydd eich natur wedi oeri tipyn. *Good night, remember I'm off to Oxford before I see you again.*"

A dechreuodd Sidney'r ffordd yn ol i'r pentref. Yr hwyr hwn yr oeddynt wedi cymeryd tro gyda'u gilydd drwy un o'r llwybrau coediog hyfryd a arweinient i'r wlad o Lwydfaen. Yr oedd y noson yn hyfryd, a bysedd hyfryd yr Hydref yn paentio'r coed mewn lliwiau cyfoethog. Nid oedd gymaint a sibrwd awel yn y cangau; ac yr oedd y frongoch newydd dewi

a'i chan fèr-felus yn y cŷll a'r drain, ac wedi myned i lechu rhwng y llwyni yn y gwrych. Yr oedd goleuadau melynion cysurus i'w gweled yn ffenestri tai'r pentref islaw; ond gyda'r eithriad o gyfarthiad y cwn yn muarthau yr amaethdai o gylch, 'doedd swn na si i'w glywed yn unman. Yr oedd yn noswaith hyfryd, ond yr oedd y tawelwch cysegredig hwn yn disgyn yn ofer o gwmpas Sidney Howells. Ychydig o'r bardd, hyny yw, ychydig o'r teimlad dynol oedd yn ei fynwes ef! Aeth yn ei flaen tuag adref gan chwiban yn ddiofal a thynu pwff o'i *cigarette* yn awr ac yn y man. 'Dyw chwiban a smocio *cigarette* ddim bob amser yn golygu cydwybod dawel. Mewn ychydig clywai Ethel yn dyfod ar ei ol. Gwyddai mai dyna wnai Ethel.

"O! Sidney," llefai, "yr ydych yn greulon."

"Y mae'r cyfan wedi darfod rhyngom; 'does eisieu i chwi ysgrifenu dim gair yn ychwaneg. Mi achubaf fi Nwyfa Roberts o law Geraint Jones mewn modd arall. Cyn pen dwy flynedd, Ethel, bydd Nwyfa Roberts yn Mrs. Sidney Howells."

"Sidney, y mae'n gas genyf Nwyfa Roberts; y mae ei henw yn dân ar fy ymenydd. *I hate her.*"

Ac aeth y ddau i gyfeiriad y pentref fraich yn mraich.

XI.

Pan glywodd Nwyfa eiriau'r *Lady Principal*, hawddach dychmygu na desgrifio ei theimladau. Tarawyd hi yn fud, a chyn iddi gael amser i ddod ati ei hun yr oedd y benaethes wedi ei moesgrymu allan o'r ystafell gyda "Nos da" lled oeraidd, a chafodd Nwyfa ei hun yn ei gwely yn ei hystafell fechan cyn iddi gael hamdden i drin yr amgylchiadau yn ei meddwl o ddifrif. Bu am oriau yn "troi a threiglo" yn ei gwely; ond er chwilio i mewn i'w hanes presenol neu orffenol, methai yn lan weled unrhyw reswm digonol dros weithred fyrbwyll y *Lady Principal*. Yr oedd helynt y traeth wedi achosi cythrwfl i'w giau ieuanc; ond yr oedd y dychryn a gafodd yno wedi rhoddi lle i syndod at ymddygiad ei phenaethes, ac i ryfeddod parthed yr hyn nas dadguddiwyd iddi gan wisgedyddes y *Pince-nez*. Rhaid fod yna gamgymeriad dybryd yn rhywle. Rhaid fod canlyniadau mân bechodau rhyw eneth arall yn y neuadd, canys yr oedd yma ddigon o enethod ysgafnach eu bryd o'r haner na Nwyfa, wedi disgyn ar ei hysgwyddau hi. Ac eto yr oedd yn gamgymeriad ofnadwy! Cael ei hesgymuno o'r Coleg! Ni wawriodd ofnadwyaeth y ffaith ond yn raddol arni. Yn wir, nid oedd wedi rhoddi enyd o feddwl i'r mater erioed o'r blaen. *Expelled*! Swniai y geiriau yn hagr ar ei chlustiau, ac elai ias drwy ei bron wrth feddwl am ei ganlyniadau. Hi, merch y Parch Humphrey Roberts, gwr a haner addolid gan fobl y wlad am filldiroedd lawer tu allan i'w gylch yn Llwydfaen; merch y pregethwr Methodist adnabyddus hwn yn cael ei gyru o Goleg Abertaf! Yr oedd y ffaith yn ddigon i amharu iechyd hen wr ei thad am ei oes. A gwelai, rhwng cwsg ac effro, yr hen weinidog yn crymu ei ben o herwydd gwaith ei unig ferch, ac yn plygu, o'r herwydd i ddyfnder beddrod anhymig. Ei danfon o'r Coleg! Sut y gallai wynebu ei chymdogion yn Llwydfaen. Sut y gallai edrych yn wyneb Sophia Howells ac Ethel y Siop. Dyna destyn siarad i Deio'r Gof uwchben ei beint cwrw yn nhafarn Penybont! Dyna destyn llawenydd i Sidney Howells yn ddiamheu! Ei danfon o'r Coleg! Rhwbiai ei llaw yn ei llygaid i gael gwybod yn iawn pa un ai hunllef erch oedd yn gwasgu arni, ai ffaith fwy erch fyth. Ond ni wnai'r rhwbio ond dwyn y dagrau poethion i'w llygaid. Dychmygai weled gwrageddos y pentref yn cwrdd a'u gilydd i wau hosanau yn eu bythynod, ac i yfed te, a siarad "clonc" y gymydogaeth, gan sisial enw Nwyfa Roberts o dan eu llais, ac edrych i gyfeiriad y drws, rhag ofn fod rhywrai yn gwrando. Nwyfa

Roberts yn destyn clebar y gymydogaeth ; yr oedd y peth yn anioddefol i feddwl am dano. Yna meddyliai am y siarad yn y Coleg dranoeth yn mhlith y bechgyn a'r merched ieuainc yn rhodio rhwng pileri'r adeilad Athrofaol, yn ddistaw rhwng y Proffeswyr ; pa un a gawsai fyth ei ryddhau neu beidio, yr oedd y cyhoeddusrwydd ofnadwy hwn y tu hwnt i'w gallu i'w wynebu fyth. Yr oedd yn well ganddi feddwl llechu yn ei thy gartref, dan wg ei rhieni, na meddwl aros yn Abertaf hyd yn nod pe bai hyny yn bosibl. Yr oedd difrifoldeb y sefyllfa yn cynyddu yn ei golwg, ac yr oedd yn rhaid iddi godi o'r orweddfan, a myned i'r ffenestr agored, a syllu allan i awyr y nos, yr hon oedd mor gaddugol a dyfodol Nwyfa ei hun. Lawer gwaith y meddyliodd yn ddirgel am y balchder gyda'r hwn y gwelai ei llythyrau yn dod i'w llaw, a'r llythyrenau cyfareddol "B.A." yn ysgrifenedig ar ol ei henw ; ond, dyma derfyn i'r cyfan. Yn lle llythyrenau yn tystiolaethu i'w dysg a'i chymeriad, a'i gallu, dychmygai weled y gair *disgraced* yn ysgrifenedig mewn llythyrenau cochion ofnadwy dros ei henw. Beth oedd i'w wneud? Yr oedd ei gyrfa addysgol ar ben. Ai aros gartref yn null llawer o ferchettos ei hardal, i gadw i fyny ryw fath o *respectability* digonol i ddenu rhywun heibio i'w phriodi? Ac yna fflachiodd Geraint Jones dros ei meddwl, a rhoddodd ei phen yn ei dwylaw, gan wylo'n hidl ddagrau heilltion yn nhawelwch y nos. Yr oedd ei ffenestr, fel y dywedasom, ar agored, ac yn nyfnder y tywyllwch cymysgai sain ei hocheneidiau a thwrw'r tonau heilltion dorent ar y traeth islaw. Wylodd Nwyfa ei hun i gysgu ar silff y ffenestr, ac yno yr oedd pan y galwyd hi yn y boreu gan un o weinyddesau y Neuadd.

Dranoeth yr oedd Nwyfa yn cychwyn am Llangraianwy, yr orsaf nesaf i'w chartref, gyda'r tren cyntaf. Aeth dwy neu dair o'i chyfeillesau mynwesol i'w gweled ymaith gyda'r gerbydres. Sicrhaodd y rhai'n wrthi y cawsai ddod yn ol yn mhen ychydig iawn o ddyddiau, ac mai camgymeriad oedd y cyfan, fod y *Lady Principal* mewn tymher ddrwg, ei bod wedi camddeall helynt y traeth, ac fod *mistake* wedi ei wneud rhwng Nwyfa a rhyw Miss Roberts arall yn y Coleg, ac yn y blaen. Ond nid oedd dim yn tycio ; daeth y boreu a hagrwch ei gwarth yn fwy amlwg nag erioed, ac nid oedd Nwyfa i'w chysuro. Ychydig o stesiynau yn mlaen prynodd gopi o bapyr dyddiol, y *Mid-Wales Morning News* ; a'r peth cyntaf darawodd eu llygaid mewn llythyrenau duon enfawr uwchben colofn oedd hyn :—A COLLEGE ROMANCE : *Modern Romeo and Juliet's Miraculous Escape*, ac yn y blaen, gyda desgrifiad llawn, gydag ychwanegiadau addurniadol o eiddo'r pin gohebyddol, o'r modd yr achubwyd efrydes ieuanc a'i chariad (y ddau o Goleg Abertaf) rhag y llanw y noson gynt. Yna yr oedd damcaniaethau parthed achau y ddeuddyn ieuanc, gyda thybiaeth fod *Juliet* ieuanc, brydferth a galluog yn ferch i un o bregethwyr mwyaf poblogaidd y Methodistiaid yn y rhan hon o Gymru.

Pan welodd Nwyfa'r golofn yn y papyr, a darllen ychydig o honi, taflodd y papyr oddiwrthi, ac yr oedd ei hymddygiad wedi tynu sylw ei chyd-deithwyr a phan welodd hyny ceisiodd gasglu ei chynheddfau at ei gilydd, a darllen nofel a ddygasai ganddi. Ond yr oedd ei llygaid yn "britho" uwch y llythyrenau ; ac yr oedd yn falch o'r arosiad yn yr orsaf nesaf i gael myned allan i newid cerbyd.

Yn mhen ychydig amser daeth y tren i *Graianwy Junction*, lle yr oedd yn rhaid iddi "newid" cyn cyrhaedd Llangraianwy. Yma arferai Nwyfa weled ei thad yn dod i'w chyfarfod ar ei ffordd adref ddechreu pob gwyliau, ac yr oedd bob amser yn llawenychu pan ddelai'r tren i ymyl gorsaf *Graianwy Junction* ; ond y tro hwn yr oedd yn ofidus ganddi glywed y cludwyr yn gwaeddi enw'r orsaf, ac am y tro

cyntaf yn ei bywyd ofnai weled gwyneb tawel ei thad parchedig yn y dyrfa ar y *platform.* Yn wir arosodd yn y cerbyd hyd y foment olaf, ac nid cyn i'r *porter* ddyfod ati a dweyd "*Change here, madam,*" mewn Saesneg digon clogyrnog, y gafaelodd Nwyfa yn ei *bag,* gan gerdded allan i'r *platform.* Gwyddai fod ganddi gryn amser i aros yma cyn y caffai dren am Llangraianwy, a cherddodd yn mlaen yn hamddenol ond tra phenisel drwy'r dyrfa gymysg arosent ar *platform Graianwy Junction* y boreu hwn o Hydref. Yr oedd y *commercial traveller* trwsiadus a golygus yma, a'i *cigar* yn ei enau, a golwg gyfforddus a chysurus arno. Yr oedd yno ambell i lowr, a chreithiau gleision ei dalcen yn nodi ei alwedigaeth, ar ei ffordd yn ol i Forganwg, a phibell glai yn ei geg, "neisied" liw'r enfys am ei wddf, a'i lodrau dair modfedd yn rhy fyr iddo: effaith *uniawnol* awyr bur y wlad ar ei aelodau efallai. Yr oedd yno aml hen wreican mewn pais a gwn bach, a ffedog liain las, a het ddu Gymreig ar ei phen, a basged wen fawr ar ei braich, a'r aflonyddwch dan y lliain ar wyneb y fasged yn bradychu presenoldeb yr ednod dof oeddent ar eu ffordd i drancedigaeth, wedi dydd marchnad Llanfair-y-rhos. Yr oedd yno forwyr mewn dillad gleision trwsiadus, *guards* aur ar eu gwasgodau, a modrwyau arian am eu "bysedd bach" ar eu ffordd o'u cartrefi clyd yn mhentref Mindraeth i uno a'u llongau yn mhorthladdoedd Deheudir Cymru. Yr oedd yno ferched ffermydd tewion bochgoch, wedi gwisgo eu dillad goreu am y dydd, i gael myned i Drefyrddin; ac yr oedd eu cariadau yno, mewn cotiau gwaith gartref, a llodrau *woollen cord* tynion, a golwg gryf arnynt, a gwedd iachus y rhos a'r braenar ar eu gruddiau, a swildod anghyfarwydd-deb yn amlwg yn eu llygaid. Yr oedd yno hen amaethwyr mewn cotiau llwydion a "throwseri rip," ac esgidiau mawr trwsgl wedi eu duo am eu traed, a hetiau *Jim Crow* am eu penau, a grafeti am eu gyddfau. Yr oedd yno rai oeddent yn adnabyddus i Nwyfa, ond nid oedd yn teimlo ar ei chalon i fyned i siarad a hwy y boreu hwn; ac ni wnai fawr sylw ar neb yn neillduol. Ond yn ddisymwth yn nghanol y dorf, gwelodd wyneb cyfarwyddach na'r oll, a gwelodd hithau yntau yr un foment; tynodd ei het yn foesgar, ond yr oedd y wên arferol yn absenol o'i lygad, ac yr oedd gwelwder anghyffredin ar ei ruddiau; teimlodd Nwyfa ei chalon yn ysboncio dan ei bron fel danas mewn caethiwed, pan estynodd Geraint Jones ei law iddi. Am foment methodd yr un o honynt ddweyd gair wrth y llall.

[I'W BARHAU.]

Y "*CHRISTIAN LIFE*" A'R "YMOFYNYDD."

I.

Yn y rhifyn dyddiedig Awst 29ain, ymddangosodd y feirniadaeth a ganlyn yn Ngholofn Lenyddol y *Christian Life* o'r erthygl ar Colenso yn YR YMOFYNYDD am Awst:

"O dan y penawd 'Pleidwyr Cynydd mewn Crefydd," dyry'r rhifyn diweddaf o'n cyfoesolyn Cymreig 'werthfawrogiad' o'r Esgob Colenso. Er fod yr erthygl wedi ei hysgrifenu yn wedddol dda, o braidd mae rhai o'i gosodiadau yn foddhaol. Sylwa'r

ysgrifenydd yn aneglur ei bod yn 'hawdd pwyntio bys at erlidwyr yr oesau a fu, heb ystyried ein bod ni ein hunain yn fynych yn syrthio i'r un amryfusedd'; gan ychwanegu, 'nid am neb y mae hyn yn fwy gwir nag am Esgob Colenso.' Daw'r ystyr yn eglurach yn nes yn mlaen pan y dywedir wrthym mai 'cywilyddus i'r eithaf oedd y driniaeth a dderbyniodd oddiar law awdurdodau'r Eglwys Wladol—yn benaf ar gyfrif ei syniadau hereticaidd am y Beibl.' Mae hyn yn *vague*, a dengys y dyn y bwriedir ei ganmol mewn goleuni anffafriol. O safbwynt yr Eglwys Saesnig, yr oedd John William Colenso ar lawer pwynt yn heretic. Gwir iddo amheu cywirdeb hanes a dilysrwydd llyfrau Moesenaidd y Beibl; ond ei wrthwynebiad i'r athrawiaeth 'iawnffyddol' o dragwyddol gosp, yr hon ni allai ei chael yn y Beibl, a ddygodd oddiamgylch ei gondemniad gan yr awdurdodau Eglwysig, a'i ddiswyddiad gan ei uwch-swyddog, Esgob Gray, Cape Town, gweithrediadau y rhai a ddyfarnwyd gan y Cyfrin Gyngor yn ddirym. Apwyntiwyd yr Esgob Colenso dyfodol i berigloriaeth Forncett St. Mary, yn Norfolk, yn 1846. Yma dywedir iddo 'greu bywyd newydd' yn y plwyf bychan gwledig, gan 'lafurio yno gyda mawr sel hyd ei benodiad i Esgobaeth Natal yn 1853.' Yno ymroddodd yn egniol i astudiaeth o'r cymeriad a'r iaith Zwlwaidd, a chyfieithodd y Beibl i'r Zwlwaeg, ac argraphodd yn yr iaith hono y Llyfr Gweddi Cyffredin a rhanau o'r Beibl; am y gwaith arddderchog hwn mae'r ysgrifenydd Cymreig yn hollol ddistaw. Sieryd am y rhai yr oedd Colenso i lafurio yn eu plith yn ei gylch newydd fel 'anwariaid duon.' Fod y mwyafrif o frodorion Natal yn 'ddu' sydd wir; fod y mwyafrif, ar adeg dyfodiad Colenso i'w plith, yn 'anwariaid' sydd hefyd efallai yn wir. Ond nid yw desgrifio fel 'anwariaid duon' drigolion trefedigaeth yn rhifo pum' cant a haner o filoedd, deg y cant o'r rhai ydynt wynion—a'r oll dan lywodraeth ysprydol Esgob Seisnig—mewn chwaeth dda nac yn genedldraethol gywir. Gan fod hon y cyntaf o gyfres o erthyglau sydd i ymddangos yn YR YMOFYNYDD, y rhai a argoeliant fod yn ddyddorol a defnyddiol, hyderwn yr ychwanegir at eu gwerth trwy ein herfyniad am ychydig mwy o ofal yn y parotoad o honynt."

II.

Danfonodd awdwr yr erthygl gondemniedig yr ateb canlynol i Olygydd y *Christian Life* mewn hunanamddiffyniad:

SYR.—Byddwch mor garedig a chaniatau i mi ychydig o'ch gofod i wneud rhai sylwadau ar feirniadaeth anffafriol eich "Adolygydd Cymreig" o'r erthygl ar Colenso yn YR YMOFYNYDD am Awst.

(1.) Achwyna fod y frawddeg 'hawdd pwyntio bys,' &c., yn aneglur. Eto cydnabydda fod yr ystyr yn fwy eglur yn nes yn mlaen—hyd yn nod (a barnu wrth ei ddyfyniad) yn y frawddeg nesaf at yr un yr achwynir o'i phlegid. Fel pe dywedai, 'mae rhan o frawddeg, wedi ei hysgaru oddiwrth y gweddill, yn ddiystyr; eto mae'r frawddeg, pan ei cymerir gyda'i gilydd, yn meddu ystyr ddealladwy.'

(2.) Dywed fod y geiriau 'cywilyddus i'r eithaf oedd y driniaeth a dderbyniodd oddiar law awdurdodau'r Eglwys Wladol—yn benaf ar gyfrif ei syniadau hereticaidd am y Beibl' yn anmhenodol ei hystyr (*vague*). Cynwys y frawddeg hon ddau osodiad: (1.) Fod Colenso wedi cael ei drin yn gywilyddus gan yr Eglwys Wladol; (2) ei fod wedi cael ei drin felly 'yn benaf ar gyfrif ei syniadau hereticaidd am y Beibl.' Credaf fod y ddau osodiad hyn yn ddigon dealladwy i berson o gyrhaeddiadau cyffredin. Cydnebydd yr "Adolygwr" ei hun fod Colenso, oddiar safbwynt yr Eglwys Wladol, ar lawer pwnc yn heretic. Ac yna, er y cydnabydda'r ffaith ei fod 'wedi

amheu cywirdeb hanes a dilysrwydd llyfrau Moesenaidd (!) y Beibl," haera mai 'ei wrthwynebiad i'r athrawiaeth 'iawnffyddol' o dragywyddol gosp a ddygodd o amgylch ei gondemniad gan yr awdurdodau Eglwyslg, a'i ddiswyddiad gan Esgob Gray. Gwn fod ei wrthwynebiad i'r athrawiaeth o dragywyddol gosp wedi ei wneud yn wrthddrych drwg-dybiaeth i'w frodyr; eto, er gwaethaf y ffaith fod y llyfr yn yr hwn y cyhoeddodd ei wrthwynebiad i'r athrawiaeth hon (yn ngeiriau un awdwr) 'yn fwy gwyrdroawl o holl athrawiaethau iawnffyddiaeth,' ni achosodd y llyfr hwn (yn ngeiriau'r un awdwr) 'y fath ystorm o ddadleuaeth a'r cyfrolau dilynol ar y Pum' Llyfr." Fod yr ystorm a'i goddiweddodd, bron, os nad yn hollol, yn ganlyniad union-gyrchol o'r hyn a ysgrifenwyd ganddo yn y cyfrolau olaf a enwyd sydd gasgliad teg.

(3) Yna â'r adolygwr yn mlaen i achwyn fod ysgrifenydd yr erthygl yn ddystaw yn nghylch rhai ffeithiau cysylltiedig â bywyd Colenso yn Natal. Yn hyn bradycha'r "adolygwr" yr yspryd yn yr hwn yr ymgymerodd ag adolygu'r erthygl dan sylw. Pe amcan yr erthygl fyddai rhoi hanes cyflawn o fywyd Colenso (yr hyn a ofynai fwy o ofod na fedrai'r YMOFYNYDD ei ganiatau) byddai rhyw gymaint o nerth yn ei feirniadaeth. Ond nid oedd a fynai'r ffeithiau hyn, am adawiad allan y rhai yr achwyna, er yn bwysig a dyddorol, mewn un modd âg amcan yr erthygl —sefydlu hawl Colenso i fod o nifer y fintai ardderchog o "Bleidwyr cynydd mewn crefydd."

(4) Achwyna hefyd oblegyd y geiriau "anwariaid duon." Gellid gosod y ddau air hyn allan mewn gwedd wahanol, pe'r ewyllysiai eich "adolygwr" wneud hyny. Ond gadawn i hyn. Cydnabydda fod y mwyafrif o frodorion Natal yn "ddu"; fod y mwyafrif o honynt, ar adeg dyfodiad Colenso i'w plith, yn "anwariaid"; ac mai dim ond "deg y cant" o'r holl boblogaeth oeddynt wynion. Er fod Colenso yn esgob yr oll o Natal, eto mae yn fater o wybodaeth gyffredin fod ei ymdrechion goreu a mwyaf aiddgar wedi eu cyfeirio at ddyrchafu a gwareiddio'r boblogaeth frodorol, y mwyafrif o'r rhai (er gwaethaf amheuon eich "adolygwr") oeddynt ar yr adeg hono yn anwariaid—ac yn ddu.

Syr, ni achwynaf oblegyd beirniadaeth ond iddi fod yn deg. Gadawaf i'ch darllenwyr i farnu a ydyw'r feirniadaeth dan sylw o'r cyfryw natur.

III.

Am ryw reswm, digonol iddo ef yn ddiau, gwrthododd Golygydd y *Christian Life* ganiatau i'r ateb uchod ymddangos; ac ar gais amryw gyfeillion y mae genyf ymddiriedaeth yn eu barn y gadawaf i'r holl ymdrafodaeth i ymddangos yn YR YMOFYNYDD fel yr unig gyfrwng y gallaf amddiffyn fy hun ynddo rhag beirniadaeth a ymddangosai i mi (fel ag i lawer ereill) yn anheg ac anghywir. Dymunaf ychwanegu'r sylwadau a ganlyn:—(1) Dylai'r "adolygwr" fod wedi aros hyd ymddangosiad yr ail ran o'r erthygl yn rhifyn Medi cyn ei beirniadu. Yn y rhan hono ceir y geiriau hyn: "Yr oedd eisoes yn wrthddrych drwgdybiaeth yn herwydd llyfr arall," &c. Yn yr erthygl ar Colenso yn yr *Encyclopædia Britannica* cadarnheir yr hyn ddywedir parthed achos condemniad Colenso yn y frawddeg ganlynol:—"Tra y cerid y ddadl yn mlaen yn ffyrnig yn Lloegr, cyfarfu esgobion Deheu Affrig, dan ddrwgdybiaeth y rhai yr oedd Colenso eisoes wedi syrthio oherwydd rhyddfrydigrwydd ei syniadau parthed amlwreiciaeth yn mhlith y dychweledigion brodorol, ac esboniad ar y Rhufeiniaid, i'w gondemnio, a chyhoeddwyd ei ddiswyddiad Rhagfyr 1863. Yn ol "adolygwr" y *Christian Life* mae hyn oll yn gamsyniol. (3) Sonia'r "adolygwr am "ei gondemniad gan yr awdurdodau eglwysig," &c. A siarad yn gywir, ni chafodd erioed ei gon-

demnio gan un awdurdod Eglwysig. Yr oedd ei gondemniad a'i ddiswyddiad gan Esgob Gray yn anghyfreithlawn. Hefyd, ni ellid ei gondemnio, ar ol Mehefin 1863 ; oherwydd yr oedd y Dr. Rowland Williams, trwy ei apêl i'r Cyfrin Gynghor, wedi sicrhau i bob offeiriad ryddid cyflawn i astudio a beirniadu'r Beibl. Rhaid i awdurdod Eglwysig fod yn Lŷs Eglwysig, gyda gallu i ddysgyblu a diswyddo. Ni chondemniwyd Colenso erioed yn yr ystyr hwn. (4) Anghofir ei lyfrau ; ond hawlia (a rhoddir iddo) le amlwg ar dudalenau hanes fel *un o sylfaenwyr Beirniadaeth Yr Hen Destament ac fel cyfaill a chymwynaswr "anwariaid duon" Deheu Affrig.*

AWDWR YR ERTHYGL.

PRIODASAU.

MEDI 1af, yn Hen Dy Cwrdd Aberdar, y gweinidog yn gwasanaethu, yr Heddgeidwad Sergeant Isaac Davies, Hirwain â Mrs. Jane Phillips, merch yr hen frawd parchus ac anwyl Jenkin Llewelyn, Pantysgawen.

MEDI 2il, yn Pantdefaid, gan y Parch. T. Arthur Thomas, Mr. John E. Jones, unig fab Mr. a Mrs. D. Jones, Oriadurwr, Llandyssul â Miss Hettie Jones, merch henaf Mr. a Mrs. Jones, Camnantfach, Llandyssul. Gwenau'r nefoedd fyddo ar yr uniad hapus.

Byw'n wâr yn nghwlwm cariad—y
A boddus yn wastad ; [byddoch
Hir einioes fo i'r uniad,
A llaw'ch Ion fo'n llywio'ch had.

DEWI GLAN CERDIN.

Oes o lwyddiant sylweddol—oes
Oes o lewyrch bythol ; [lawen
Oes digroesau, deg rasol,
O fawr fri a fo ar ol.

Fronwen. T. T.,

MEDI 4, yn Pantdefaid, gan y Parch. T. Arthur Thomas, Mr. Lewis Timothy Thomas, Gyfeile, Trysorydd eglwys Pantdefaid ac unig fab i'r diweddar Mr. Thomas Thomas, gynt o Cwmdyllest â Miss Mary Davies, merch hynaf Mr. a Mrs. Davies, Dyffrynllynod, Llandyssul. Y bendithion goreu fyddo yn rhan i'r pâr dedwydd.

O'r pur uniad i'r pâr anwyl,—boed
A byd llawn bob egwyl ; [llwydd
Pob gwynfyd a hyfryd hwyl,
Uwch pris a lanwo'ch preswyl.

DEWI GLAN CERDIN.

MARWGOFION.

AWST 20fed, yn 46 oed, James Thomas, 154, Wood Road, Pontypridd. Ganwyd a magwyd ef yn Glaslwyn ger Llandyssul. O gymydogaeth ei enedigaeth aeth i Abertawe, ac ar ol treulio oddeutu 5 mlynedd yno, symudodd i Bontypridd lle y bu fyw am flynyddoedd, gan ddal swyddi cyhoeddus ac anrhydeddus. Gadawa wraig, dwy ferch fechan, chwaer, tri brawd, ac amryw berthynasau i gwyno ei ymadawiad. Y Llun canlynol cludwyd ei gorph i orsaf Llandyssul, lle yr oedd llawer o'i hen gyfeillion yn ei ddisgwyl, er cael talu y gymwynas olaf o hebrwng y rhan ddaearol i fynwent y Llwyn. Gwasanaethodd y Parch. E. O. Jenkins, a dydd Sul, Awst 30, traddododd y bregeth angladdol.

AWST 26ain, yn 11 oed, Hannah, merch John Griffiths, Bankyrhenbant, Llandyssul. Bu y fechan yn wael am wythnosau, ac yr oedd yn amlwg er's dyddiau lawer fod amser ei hymddatodiad yn agos. Gwaith blin yw edrych ar rai ieuainc fel hyn yn ymlusgo megis i afael angau. Nid neidio yn sydyn i'r afon wnaeth ond arosodd ar ei glan am amser da, a chredwn fod awelon mwynaidd y wlad well wedi ymweled â hi. Gwel Ysgol Sul Llwynrhydowen lawer o'i heisieu canys yr oedd hi yn un o'r aelodau mwyaf prydlon a ffyddlon. A ydyw ein Hysgolion Sul yn cofio'n wastad eu bod hwy yn magu plant i'r nef? Ar ol y ddau wasanaeth y Sul canlynol canodd y plant yr hen dôn gysurlawn "D'wed cawn ni gwrdd yn y nef?" yn swynol iawn. Dydd Llun, Awst 31, claddwyd ei gweddillion yn y Llwyn yn mhresenoldeb torf anarferol fawr. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

AWST 28ain, yn Bryngwyn, Aberdâr, Jane Parker, anwyl briod T. Dawkin Williams, *Stonecutter*, yn 68 oed. Am fwy na phedair blynedd cafodd Mrs. Williams gystudd trwm iawn, a dygodd ef gydag amynedd gwir Gristnogol. Gweinwyd arni drwy'r amser gan ei phriod a'i merch gyda'r gofal a'r tynerwch mwyaf, fel na fu dim yn eisieu ar eu rhan hwy i'w gwneuthur mor gysurus ag oedd bosibl dan yr amgylchiadau. Claddwyd dydd Mawrth, Parch. R. J. Jones yn gwasanaethu yn y tŷ, ac ar lan y bedd yn y *Cemetery* cafodd gynorthwy gwerthfawr y Parch. Grawys Jones, Ebenezer.

"Henffych i'r dydd cawn eto gwrdd
Yn Salem fry oddeutu'r bwrdd."

AWST 28ain, yn 65 oed, Mrs. Mary Davies, gweddw y diweddar Mr. T. C. Davies, Tyssul House, Llandyssul. Y dydd Mawrth canlynol claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn ymyl ei phriod yn mynwent Pantdefaid, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. U. Thomas, Caerfyrddin, D. Richards, Cwmduad, ac Arthur Thomas. Gadawodd yr ymadawedig ddau fab i alaru ar ei hol—Dr. Abel Davies, Gowerton a Mr. D. T. Davies, *National and Provincial Bank*, Aberhonddu.

MANION AC HANESION.

ADRODDIAD Y GYMDEITHAS.—Gwnaed un amryfusedd yn yr adroddiad a ymddangosodd yn y rhifyn diweddaf trwy adael allan y pender-

fyniad a wnaed i gyflwyno Anerchiad yn Nghyfarfod Chwarterol Pantdefaid yn ystod y mis hwn i'r Parch. T. Thomas, Y.H., Green Park, pan ar fin cyrhaedd ei bedwar ugain mlwydd oed. Arwyddnodir yr Anerchiad gan weinidogion Undodaidd Cymreig yn Nghymru ac allan o Gymru fel arwydd o gydnabyddiaeth wresog am ei wasanaeth hirfaith a gwerthfawr i'w enwad ac i'w wlad.

CWM RHONDDA.—Deallwn fod yr Eglwysi yn y Pentre a Chlydach Vale wedi rhoddi galwad unfrydol i Mr. D. R. Davies, Llanbedr, diweddar fyfyriwr yn yr Home Missionary College, Manchester, a'i fod yntau wedi ei derbyn. Da genym glywed ei fod wedi gwneud argraff ragorol yn barod yn mhlith y cyfeillion yno fel dyn ieuanc a gyrfa ddysglaer o'i flaen fel gweinidog. Mae ein dymuniadau goreu yn myned gydag ef i'w gylch newydd.

CYFARFOD CHWARTEROL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.—Llywydd: Y Parch. D. Evans, Cribyn. Is-Lywydd—Y Parch. E. Ceredig Jones, M.A., Bradford. Cynhelir yn Mhantdefaid ar ddyddiau Mawrth a Mercher, Hydref 13 a 14. Gwasanaeth am 7 nos Fawrth; Pwyllgor dydd Mercher am 9; Gwasanaeth am 10.30, y Parch. R. J. Jones, M.A. yn pregethu. Cyflwyniad Anerchiad i'r Parch. T. Thomas, Y.H., Green Park, ar ddiwedd y gwasanaeth. Cyfarfod yr Ysgol Sul am 1.30; Cyfarfodydd Pregethu am 2.30 a 6. Rhoddir gwahoddiad cynes i bawb. Cyferfydd cerbydau a'r *train* 2.30 yn ngorsaf Llandyssul.—W. JAMES, *Ysg.*

CYDYMDEIMLO A DR. PRIESTLEY.—Penderfyniad y Tri enwad yn Llechryd. Foneddigion,—Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Llechryd, Awst 25, 1791, cytunwyd gan weinidogion y tri enwad oeddynt yno ynghyd ar Anerchiad o gydymdeimlad a'r Parch. Dr. Priestley yn ei ddioddefiadau diweddar, pan y gwnaeth y *mob*, dan ddylanwad y Toriaid Eglwysig, ddinystrio ei dŷ, a llosgi ei lyfrau a'i bapyrau gwerthfawr. Cynygiwyd y penderfyniad mewn araeth wresog gan y Parch. David Davis, Castell Hywel, a phasiwyd yn unfrydol, ar ol ychydig o wrthwynebiad gan weinidog Annibynol poblogaidd (*popular preacher*). Anfonwyd y penderfyniad i Dr. Priestley gan y Parch. Josiah Rees, Gellionen; ac yn y *Christian Reformer* am 1836, tud. 97, 98, cyhoeddir ateb y Dr., wedi ei anfon gan y Parch. Timothy Davis, o Evesham, yr hwn oedd yn y cyfarfod pan basiwyd y penderfyniad. I Dr. Priestley y cyfansoddodd y Parch. D. Davis y beddargraff byd-adnabyddus—

" Here lie at rest in oaken chest,
Together packed most nicely,—
The bones and brains, flesh, blood and veins,
And *soul* of Dr. Priestley."—D.D.

Nid gwir fod y penill ar gareg bedd Dr. Priestley.

" Yma gorwedd wedi marw,
Yn dra dethau mewn arch dderw,
Esgyrn, 'mhenydd, gwaed a gwythi,
Corff ac *enaid* Doctor Priestley."
—*Cyf.* TAU GIMEL.

Credai Dr. Priestley y byddai yr enaid gyda'r corff yn y bedd hyd ddydd yr adgyfodiad.—S.N.S.

O.Y.—Pwy oedd y *Popular Preacher?*

CEFNCOED.—Dydd Sul, Medi yr 20fed, agorwyd Llyfrgell mewn cysylltiad a'r Ysgol Sul yn y lle hwn. Mae yn hyfrydwch mawr gyda ni allu dweyd fod yr Ysgol Sul yn dal ei thir yn dda, ac yn awr gyda dyfodiad yr Hydref a'r Gauaf, yr ydym yn hyderu y lluosoga nifer yr aelodau, ac y bydd ei llwyddiant yn fwy nag erioed. Y cyfaill ieuanc Mr. J. R. Evans fu'r prif offeryn i sefydlu'r Llyfrgell, ac i gael at eu gilydd nifer ardderchog o lyfrau da, a dyddorol dros ben oedd gweled awydd y plant am gael bob o lyfr allan i'w ddarllen. Hir y parhao y syched hwn. Penodwyd y brodyr ieuainc, Richard Jones,

Tom Eynon, a Johnny Jones, i edrych ar ol y llyfrgell am y chwarter cyntaf. Heblaw yr ychwanegiad hwn mae y cantorion yn ffyddlon iawn, ac yn helpu i wneud y gwasanaeth yn fwy ei amrywiaeth trwy ganu anthemau, pedwarawdau ac unawdau yn ystod y cyfarfodydd, yr hyn a gymeradwyir yn fawr gan y gwrandawyr.

PANTDEFAID.—Dydd Sul, Medi y 27ain, derbyniwyd i mewn i'r eglwys gan y gweinidog ddeunaw o aelodau newyddion.

Y GWERSI NEWYDD.——Mae'r Gwersi newydd yn barod. Gobeithio y danfonir archebion am danynt yn ddiymdroi, fel y gall yr ysgolheigion ddechreu ar y gwaith gogyfer a'r arholiad nesaf ar unwaith. Adeg y gauaf yw'r adeg oreu i weithio, ac hyderir y gwneir ymdrech fawr i fanteisio ar y cyfleusderau sydd genym. Danfoner am y Gwersi at T. J. Jenkins, Trebanos, Swansea Valley.

"DYDDIAU IEUENGCTYD."—Goddefwch i mi adgofio y dosparthwyr am yr uchod. Yr wyf wedi derbyn y tâl oddiwrth ddosparthwyr y lleoedd canlynol—Llandyssul, Ciliau, Rhydygwin, Pantydefaid, Llwyn a'r Bwlch. Dewch mor fuan ag y gellwch er fy ngalluogi i gael y Fantolen yn barod erbyn y Cyfarfodydd Chwarterol.—T. J. JENKINS.

LLWYN.—Dydd Gwener, Awst 21, cynhaliodd Ysgol Sul Llwynrhydowen ei Gwyl Dê Flynyddol. Mrs. Lloyd a Miss Evans, Cwmmarch, oeddynt yn rhoddi y Tê hwn, ac fe deimlai pawb fod eu darpariadau yn rhagorol. Rhoddodd Mrs. Jones, Gellifaharen, a Capt. Davies, felusion i'r plant fel arfer. Yr oedd y prydnawn, y tywydd, y tê, y *games*, a'r canu, yn ffynonellau pleser i lawer. Cynygiwyd diolchgarwch i'r rhai a'i teilyngai gan Mrs. Evans, Frondeg.

TRYSORFA ADEILADU BRONDEIFI.—Cydnabyddwyd eisioes, £1245 19s.; H. Gaskell, Liverpool, £50; Mrs. Robinson, Salisbury, £5: Wm. Jones, Cardiff, £5; Walter J. Evans, Carmarthen, £3 3s.; H. Woolcott Thompson, Cardiff, £3 3s.; G. Carslake Thompson, eto, £3; S. W. Preston, London, £3 3s.; M. Vaughan Davies, M.P., Tanybwlch, £3; Mrs. Hartley, Lluast, near Lampeter, £3; Misses Davies, Salisbury road, Cardiff, £2 10s.; Mrs. Woodall, Croydon, £2 10s.; Mrs. J. R. Holland, London, £2 2s.; R. Taylor Heape, Rochdale, £2 2s.; Edward Chitty, Dover, £2 2s.; G. W. Chitty, eto, 2*l.* 2s.; Miss S. S. Dowson, Beccles, 2*l.* 2s.; A Sussex Wellwisher, 2*l.* 2s.; J. S. Lister, London, 2*l.* 2s.; Mrs. Briggs, Windermere, 2*l.*; Rev. C. A Greaves, D.C.L., Canterbury, 2*l.*; Richard D. Holt, Liverpool, 2*l.*; Oswald Nettlefold, London, 1*l.* 1s.; J. S. Lister, Hampstead, London, 1*l.* 1s.; E. S. Paget, Leicester, 1*l.*; W. B. Worthington, B.Sc., Manchester, 1*l.* 1s.; Alfred Holt, Liverpool, 1*l*; Russell Evans, Manchester, 1*l.* 1s.; Ion Pritchard, London, 1*l.* 1s.; Miss Ridge, eto, 1*l.* 1s.

TALIADAU.

D.T., Cloth Hall, Pantdefaid; D.M.J., Cwrtnewydd; E.S.E., Caerdydd; H.W.H., Merthyr; J.P., Hafod; D.T., Lerpwl; J.C.J., C. N. Emlyn; Dr. J., Pentre; Mrs. J., Pentwyn; Dr. E., Llunden; Miss M.-T., Aberystwyth.

J. D. Lewis, Ager Argraffydd, Gomerian Press, Llandyssul.